# Cardiff Council Update: 14th August

Welcome to the last update of the week from Cardiff Council, covering: Llandaff Fields among the latest play areas to reopen, bringing the total open to 100; funding approved for the first phase of Cardiff's District Heating-Network; this year's Cardiff A-Level results; Adult Community Learning Cardiff develops range of exciting new learning opportunities; and local samba band 'Barracwda' re-establish their community group at Bute Park's temporary outdoor courts.

## Llandaff Fields included in the latest play areas to reopen this weekend

Another nine children's play areas in Cardiff, including the popular facilities at Llandaff Fields, are to reopen at midday this Saturday. Once opened, it will bring the total number of play areas available to use in Cardiff to 100.

A total of nine play areas will open from midday on Saturday (15th August). They are:

- Llanishen Park, Llanishen
- Parkland (Thornhill Rec), Llanishen
- Catherine Gardens, Rumney
- Runway Road, Splott
- Crawford Drive, Pontprennau & St Mellons
- Kitchener gardens, Riverside
- Llandaff Fields Junior, Riverside
- Llandaff Fields Toddler, Riverside
- Celtic Park, Whitchurch

Play areas have been opened on a phased basis, following a safety first approach and with a view to ensuring that children across the city have some play provision in their local area as quickly as possible.

In line with Welsh Government guidance and health and safety legislation, all sites have gone through a COVID-19 risk assessment and the equipment and safety surfaces have been inspected by a qualified playground inspector, prior to re-opening.

Changes have been made to some play areas to help maintain social distancing and minimise risk of transmitting COVID-19. For example, some swing seats have been removed to ensure a 2 metre distance is maintained.

Read more here:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/24531.html

**Funding approved for the first phase of Cardiff's District Heating-Network**

A new £26.5m district-heating network, which will use underground pipes to transport heat from an energy recovery facility to businesses and homes in Cardiff, has secured £15mto begin the first phase of works.

Cardiff City Heating Networkwill use heat generated at Viridor's Energy Recovery Facility (ERF) at Trident Park, which divertsapproximately 350,000 tonnes of non-recyclable waste from landfill every year. The plant generates enough electricity to power around 68,448 households.

Buildings that connect to the network will no longer need to use gas to heat their property, reducing energy bills and the city's carbon emissions.

The new project - the first of its kind in Wales - has received support via a £8.6m loan from the Welsh Government and a £6m grant from the UK Government.

Cabinet Member for Clean Streets and the Environment, Cllr Michael said: "This is an exciting opportunity for Cardiff to develop a new, low-carbon, energy infrastructure, fueled by an existing facility in the city. The Heat Network is one the council's key projects in our response to Climate Change, so this is really exciting news.

"Analysis shows that if all the heat available from the plant is fully utilised, we could save 5,600 tonnes of carbon each year and the customers signed up to the network could cut their annual energy bills by five per cent on average, while reducing their heating system's carbon emissions by up to 80%."

Read more here:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/24521.html

**Cardiff A-Level results 2020**

Pupils across Cardiff have today received their A-Level results, many of which have been delivered virtually due to COVID-19.

Cabinet Member for Education, Employment and Skills, Cllr Sarah Merry, said: "I would like to congratulate all of Cardiff's students who have received their A-Level results today, in what has been an extraordinary few months for young people across the city.

"Schools, regulators and exam boards have worked diligently to ensure that their results will be regarded with equal importance as previous years. This cohort of Year

12 and Year 13's will be acknowledged for succeeding, having faced an exceptional series of challenges caused by the pandemic and now they can celebrate their determination and hard work over the last few years.

"I have enjoyed hearing of so many success stories from across the city and whether our students are moving onto university, employment or training, I would like to wish them the best of luck as they begin a new chapter of their lives."

Given the decision to cancel examinations this summer as a result of the pandemic, the WJEC have developed a process which allows grades to be based on Centre Assessment Grades and Rank Orders which have been submitted by teachers/ lecturers.

Following a consultation with young people and education professionals conducted by Qualifications Wales, the WJEC has developed two statistical standardisation models, which have been approved by Qualifications Wales, which have been applied as part of the process for the issuing of grades for the summer 2020 exam series.

A specific appeals process for the summer 2020 exam series has also been developed.

Read more here:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/24527.html

**Learning for Life Online**

Adult Community Learning Cardiff has developed a range of exciting new learning opportunities, with courses due to start next month.

The Learning for Life course brochure is now available online and enrolment is open for a number of online courses including art, crafts, gardening, ICT, languages and more, with further classes to be added in coming weeks.

The service has adapted to deliver online learning in the light of the current health measures and are encouraging learners to sign up to learn using their own devices from home. Classes will be delivered via Google classrooms and Microsoft Teams.

Cabinet Member for Education, Employment and Skills, Cllr Sarah Merry, said: "This year's Learning for Life autumn term will be a little different due to the current circumstances but thanks to technology, we can continue to deliver engaging and enjoyable courses for learners and hopefully widen access to our learning opportunities.

"More and more people have become familiar with using their devices and online platforms to connect with family or for work purposes and we are really pleased to have been able to develop a range of interesting courses that our expert tutors will deliver online for learners."

Read more here:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/24529.html

**Local samba band 'Barracwda' re-establish their community group at Bute Park's temporary outdoor courts**

The Afro Brazilian percussion troop 'Barracwda' have found an alternative home for their rehearsal at the temporary outdoor courts in Bute Park near Blackweir changing rooms.

Around 30 of the samba band's members come together to mix funk, reggae and jungle music but were unable to rehearse and socialise indoors due to lockdown and the ongoing social distancing measures.

The seven outdoor activity courts have been designed as part of a scheme to make use of outdoor areas that are not currently being used, providing a private space for group activities to continue in a safe environment.

Since the launch of the courts last month they have been a welcome addition to Bute Park and the team are taking bookings for any groups who are experiencing difficulty practicing activities that may usually take place indoors.

Read more here:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/24519.html

## Diweddariad Cyngor Caerdydd: 14 Awst

Croeso i ddiweddariad olaf yr wythnos gan Gyngor Caerdydd yn cynnwys: Caeau Llandaf ymhlith y mannau chwarae diweddaraf i'w hailagor, gan ddod â'r cyfanswm sydd ar agor i 100; cymeradwyo cyllid ar gyfer cam cyntaf Rhwydwaith Gwresogi Ardal Caerdydd; canlyniadau arholiadau Safon Uwch Caerdydd eleni; Dysgu Oedolion yn y Gymuned Caerdydd yn datblygu amrywiaeth o gyfleoedd dysgu newydd cyffrous; a'r band samba lleol 'Barracwda' yn ail-sefydlu ei grŵp cymunedol yn y cyrtiau awyr agored dros dro ym Mharc Bute.

Tweet [255 character limit, including spaces]

Croeso i ddiweddariad diwethaf yr wythnos Cyngor #Caerdydd, yn cynnwys: ailagor mwy o ardaloedd chwarae i ddod â'r cyfanswm i 100; cymeradwyo cyllid y rhwydwaith gwresogi; canlyniadau Safon Uwch; dysgu am oes ar-lein; a band samba ym Mharc Bute.

**Caeau Llandaf ymhlith yr ardaloedd chwarae diweddaraf i ailagor y penwythnos hwn**

Mae naw ardal chwarae arall i blant yng Nghaerdydd, gan gynnwys y cyfleusterau poblogaidd yng Nghaeau Llandaf, i'w hailagor ganol dydd y Sadwrn yma. Ar ôl eu hagor, bydd yn dod â chyfanswm y mannau chwarae sydd ar gael i'w defnyddio yng Nghaerdydd i 100.

Bydd cyfanswm o naw ardal chwarae yn ailagor o 12pm ddydd Sadwrn (15 Awst). Dyma nhw:

- Parc Llanisien, Llanisien
- Parkland (Cae Rec y Ddraenen), Llanisien
- Gerddi Catherine, Tredelerch
- Heol Runway, y Sblot
- Rhodfa Crawford, Pontprennau a Llaneirwg
- Gerddi Kitchener, Glanyrafon
- Caeau Llandaf - Plant, Glanyrafon
- Caeau Llandaf - Plant Bach, Glanyrafon
- Parc Celtig, Yr Eglwys Newydd

Mae'r ardaloedd chwarae wedi eu hailagor yn raddol, gan ddilyn ymagwedd diogelwch yn gyntaf a gyda'r nod o sicrhau bod plant ledled y ddinas yn gallu cael rhyw fath o ddarpariaeth chwarae yn eu hardal leol cyn gynted â phosibl.

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru a deddfwriaeth iechyd a diogelwch, cynhaliwyd asesiad risg Covid-19 ar bob safle ac mae arwynebau'r offer a'r arwynebau diogelwch wedi cael eu harchwilio gan arolygydd ardal chwarae cymwys, cyn eu hail-agor.

Darllenwch fwy yma:
https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/24532.html

**Cyllid wedi'i gymeradwyo ar gyfer cam cyntaf**

Mae rhwydwaith gwresogi ardal newydd gwerth £26.5 miliwn, a fydd yn defnyddio pibellau tanddaearol i gludo gwres o gyfleuster adfer ynni i fusnesau a chartrefi yng Nghaerdydd, wedi sicrhau £15 miliwn i ddechrau cam cyntaf y gwaith.

Bydd Rhwydwaith Gwresogi Dinas Caerdydd yn defnyddio gwres a gynhyrchir yng Nghyfleuster Adfer Ynni Viridor ym Mharc Trident, sy'n dargyfeiriotua 350,000 o dunelli o wastraff na ellir ei ailgylchu o safleoedd tirlenwi bob blwyddyn. Mae'r gwaith yn cynhyrchu digon o drydan i bweru tua 68,448 o aelwydydd.

Ni fydd adeiladau sy'n cysylltu â'r rhwydwaith angen defnyddio nwy i wresogi eu heiddo mwyach, gan leihau biliau ac allyriadau carbon y ddinas.

Mae'r project newydd - y cyntaf o'i fath yng Nghymru - wedi cael cymorth drwy fenthyciad o £8.6 miliwn gan Lywodraeth Cymru a grant o £6 miliwn gan Lywodraeth y DU.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân a'r Amgylchedd, y Cynghorydd Michael: "Dyma gyfle cyffrous i Gaerdydd ddatblygu seilwaith ynni carbon-isel newydd, a gyflenwir gan gyfleusterau presennol yn y ddinas. Mae'r Rhwydwaith Gwres yn un o brojectau allweddol y Cyngor yn ein hymateb i newid yn yr hinsawdd, felly mae hwn yn newyddion cyffrous iawn.

"Yn ôl dadansoddiad, os yw'r holl wres sydd ar gael o'r peiriannau'n cael ei ddefnyddio'n llawn, gallem arbed 5,600 tunnell o garbon bob blwyddyn a gallai'r cwsmeriaid a oedd wedi ymuno â'r rhwydwaith leihau eu biliau ynni blynyddol bump y cant ar gyfartaledd, tra'n lleihau allyriadau carbon eu system wresogi hyd at 80%."

Darllenwch fwy yma:
https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/24526.html

**Canlyniadau Safon Uwch Caerdydd 2020**

Mae disgyblion ar draws Caerdydd wedi derbyn eu canlyniadau Safon Uwch heddiw, ac mae llawer ohonynt wedi cael eu cyflwyno ar ffurf rithwir oherwydd COVID-19.

Dywedodd y Cynghorydd Sarah Merry, yr Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau: "Hoffwn longyfarch holl fyfyrwyr Caerdydd sydd wedi cael eu canlyniadau Safon Uwch heddiw, yn dilyn ychydig fisoedd anghyffredin iawn i bobl ifanc ledled y ddinas.

"Mae ysgolion, rheoleiddwyr a byrddau arholi wedi gweithio'n ddiwyd i sicrhau y bydd eu canlyniadau'n cael eu hystyried yr un mor arwyddocaol â rhai'r blynyddoedd a fu. Bydd cohort Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 eleni'n cael eu cydnabod am lwyddo yn

wyneb cyfres eithriadol o heriau a achoswyd gan y pandemig, a nawr gallant ddathlu eu dyfalbarhad a'u gwaith caled dros y blynyddoedd diwethaf.

"Rwyf wedi mwynhau clywed am gynifer o lwyddiannau o bob cwr o'r ddinas a boed ein myfyrwyr yn symud yn eu blaen i'r brifysgol, i swyddi neu i hyfforddiant, hoffwn ddymuno pob lwc iddynt wrth iddynt ddechrau ar bennod newydd yn eu bywydau."

O ystyried y penderfyniad i ganslo arholiadau'r haf hwn o ganlyniad i'r pandemig, mae CBAC wedi datblygu proses sy'n caniatáu i raddau gael eu seilio ar Raddau Asesiad Canolfan a Threfnau Rhestrol sydd wedi eu cyflwyno gan athrawon/darlithwyr.

Yn dilyn ymgynghoriad â phobl ifanc a gweithwyr proffesiynol ym maes addysg a gynhaliwyd gan Cymwysterau Cymru, mae CBAC wedi datblygu dau fodel safoni ystadegol, sydd wedi eu cymeradwyo gan Cymwysterau Cymru, a gaiff eu cymhwyso fel rhan o'r broses cyhoeddi graddau ar gyfer cyfres arholiadau haf 2020.

Mae proses apelio benodol ar gyfer cyfres arholiadau haf 2020 wedi'i datblygu hefyd.

Darllenwch fwy yma:
https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/24528.html

**Dysgu Am Oes Ar-lein**

Mae Dysgu Oedolion yn y Gymuned Caerdydd wedi datblygu ystod o gyfleoedd dysgu newydd a chyffrous, gyda'r cyrsiau yn dechrau'r mis nesaf.

Mae llyfryn cyrsiau Dysgu Am Oes bellach ar gael ar-lein ac mae'r cyfnod cofrestru ar gyfer nifer o gyrsiau ar-lein gan gynnwys celf, crefftau, garddio, TGCh, ieithoedd a mwy ar agor, gyda rhagor o ddosbarthiadau i'w hychwanegu yn yr wythnosau nesaf.

Mae'r gwasanaeth wedi addasu i gynnig dysgu ar-lein yng ngoleuni'r mesurau iechyd cyfredol ac mae'n annog dysgwyr i gofrestru i ddysgu trwy ddefnyddio eu dyfeisiau eu hunain o'u cartrefi. Bydd dosbarthiadau'n cael eu cyflwyno trwy Google Classrooms a Microsoft Teams.

Dywedodd y Cynghorydd Sarah Merry, yr Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau: "Bydd tymor hydref Dysgu Am Oes eleni ychydig yn wahanol oherwydd yr amgylchiadau presennol ond gyda chymorth technoleg, gallwn barhau i gynnig cyrsiau diddorol a hwyliog i ddysgwyr a, gobeithio, ehangu'r gallu i fanteisio ar ein cyfleoedd dysgu.

"Mae mwy a mwy o bobl wedi dod yn gyfarwydd â defnyddio eu dyfeisiau a'u llwyfannau ar-lein i gysylltu â'u teuluoedd neu at ddibenion gwaith, ac rydym yn falch iawn o fod wedi gallu datblygu amrywiaeth o gyrsiau diddorol y bydd ein tiwtoriaid arbenigol yn eu cyflwyno ar-lein i ddysgwyr."

Darllenwch fwy yma:
https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/24530.html

**Y band samba lleol 'Barracwda' yn ail-sefydlu eu grwp cymunedol yng nghyrtiau awyr agored dros dro Parc Bute**

Mae'r band taro 'Barracwda' sy'n chwarae rhythmau Affricanaidd a Brasilaidd wedi dod o hyd i gartref amgen ar gyfer eu hymarfer yn y cyrtiau awyr agored dros dro ym Mharc Bute ger ystafelloedd newid y Gored Ddu.

Mae tua 30 aelod o'r band samba fel arfer yn dod at ei gilydd i gymysgu cerddoriaeth ffync, reggae a Jungle ond nid oeddent yn gallu ymarfer a chymdeithasu dan do yn y cyfnod cloi nac wrth i'r mesurau ymbellhau cymdeithasol fynd rhagddynt.

Cynlluniwyd y saith cwrt gweithgareddau awyr agored fel rhan o gynllun i wneud defnydd o ardaloedd awyr agored nad ydynt yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd, gan gynnig lle preifat i  weithgareddau grŵp i barhau mewn amgylchedd diogel.

Ers lansio'r cyrtiau'r mis diwethaf maent wedi bod yn ychwanegiad i'w groesawu i Barc Bute ac mae'r tîm yn derbyn archebion ar gyfer unrhyw grwpiau sy'n cael anhawster i ymarfer gweithgareddau fyddai fel arfer yn digwydd dan do.

Darllenwch fwy yma:
https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/24520.html